OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1848 (Cy.177)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Gorffennaf 2008* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) a chan adrannau 45, 105 a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**):

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 45(8A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Yn unol ag adran 45(8B) ac (8C) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â pha mor ddealladwy yw'r cwestiynau y gellir eu gofyn mewn refferendwm ynghyd â'r datganiadau sy'n rhagflaenu'r cwestiynau hynny fel a bennir yn y Rheoliadau hyn. Maent wedi cyflwyno adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n datgan y safbwyntiau a fynegwyd gan y Comisiwn yn ei ymateb.

Yn unol ag adran 45(8D) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn am farn y Comisiwn Etholiadol ar fater y cyfyngiad treuliau refferendwm ac wedi rhoi sylw i'r farn honno. Nid ydynt wedi cyflwyno datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r is-adran honno oherwydd bod y Rheoliadau hyn yn cyd-fynd â'r farn honno.

Yn unol ag adran 105(6) o'r Ddeddf honno (fel y'i cymhwysir gan baragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron ac wedi ei gymeradwyo gan benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 1993 p.38.

(**2**) 2000 p.22; mewnosodwyd adrannau 45(8A) i (8D) a diwygiwyd adran 45(9) gan baragraff 18 o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41); diwygiwyd adran 105(6) a mewnosodwyd adran 105(6A) gan baragraff 14 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).